

**Hawdd ei ddeall**

# **Sut i wneud yn siŵr bod pobl gydag anabledd dysgu yn cael y tai a'r gefnogaeth gorau**



**Dyma fersiwn hawdd ei ddeall o 'Crynodeb Gweithredol: Datblygu arfer gwell a blaengar Y Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol'**

**Mawrth 2019**



# Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma

Dyma fersiwn hawdd ei ddeall. Mae'r geiriau a beth maen nhw'n feddwl yn hawdd i'w darllen a'u deall.



Efallai y byddwch angen help a chefnogaeth i ddarllen a deall y ddogfen yma. Gofynnwch i rhywun rydych yn ei adnabod i'ch helpu chi.

Efallai bod rhai geiriau yn anodd i'w deall. Mae'r rhain mewn **ysgrifen glas trwm** ac mae beth maen nhw'n feddwl yn cael ei esbonio yn y blwch o dan y gair.

Lle mae'r ddogfen yn dweud ni, mae hyn yn meddwl y **Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol** (NCB).



Cymdeithas Llwyodraeth Cymru  
Tŷ Llwyodraeth Lleol  
Drake Walk  
Caerdydd, CF10 4LG



029 2046 8600

[enquiries@wlga.gov.uk](mailto:enquiries@wlga.gov.uk)



Cafodd y ddogfen yma ei wneud yn hawdd ei deall gan **Hawdd ei Ddeall Cymru** gan ddefnyddio Photosymbols.

# Cynnwys

Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma .....2

Ar gyfer beth mae'r ddogfen yma.....4

Byw gyda chefnogaeth.....6

Beth sydd yn digwydd nesaf? .....12

Beth arall sydd angen ei wneud.....13

Mae'r ddogfen yma wedi cael ei rhoi at ei gilydd gan.....15

# Ar gyfer beth mae'r ddogfen yma



Rhoi cyngor am y ffyrdd gorau o ddarparu gwasanaethau tai a chefnogaeth i bobl gydag anabledd dysgu.



Edrych ar sut mae hyn yn cael ei wneud nawr a'i wneud yn well. Er enghraifft, gwneud yn siŵr bod pobl yn dod gyntaf ac yn gallu gwneud dewisiadau am beth maen nhw ei angen i fyw bywydau da.



Edrych ar y canllaw a gafodd ei wneud ym mis Tachwedd 2017 i bobl gydag anabledd dysgu a'i wneud yn well.



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Cael llais am raglen Llywodraeth Cymru o'r enw **'Rhaglen Gwella Bywydau Anabledd Dysgu'**.

Mae hon yn siarad am wneud yn siŵr bod yna fwy o lety i bobl yn fwy agos at lle maen nhw'n dod.



Gwneud yn siŵr bod gwasanaethau yn cael eu diweddarau a'u bod nhw'n berthnasol.

Mae hwn ar gyfer:



- pobl gydag anabledd dysgu
- cyrff sydd yn cefnogi pobl ac yn talu am y gefnogaeth
- gofalwyr, teulu ac unrhyw un sydd yn rhan o'r gefnogaeth.



Mae'r ddogfen yma yn seiliedig ar 3 deddf:

- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
- Deddf Cydraddoldeb 2010
- Cynhadledd y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Personau gydag Anableddau.



# Byw gyda chefnogaeth



Mae llawer o bobl gydag anabledd dysgu yn byw mewn llety gyda chefnogaeth. Er enghraifft, efallai mewn tŷ gyda 3 neu 4 o bobl eraill lle mae gweithwyr cefnogi yn helpu gyda byw o ddydd i ddydd.



Rydyn ni'n meddwl bod rhaid i hyn fod yn beth da. Ond rhaid inni wneud yn siŵr bod anghenion a dewisiadau pobl yn cael eu rhoi gyntaf.



I helpu pobl i feddwl am y materion pwysig yma rydyn ni wedi ysgrifennu 12 cwestiwn gydag atebion.



## 1. Pa wasanaethau ddylai gael eu rhoi i bobl?



Cefnogaeth i gael bywyd da.



## 2. Sut fydd hyn yn digwydd?



Trwy wneud yn siŵr bod pobl yn dod gyntaf a'n bod ni yn gweithio gyda'n gilydd.



## 3. Beth mae'n rhaid i wasanaethau geisio ei gyflawni?



Gwneud yn siŵr bod pobl yn cael eu hawliau.



Gwneud yn siŵr eu bod nhw'n edrych ar ôl llesiant pobl.



Gwneud yn siŵr bod pobl yn gallu bod yn annibynnol.



#### 4. Pa fath o dai ddylai pobl allu eu cael?



Tai neu fflatiau cyffredin yn y gymuned.



#### 5. Sut beth ydy'r tai a'r gefnogaeth gorau?



Mae gan berson eu cartref eu hunain.



Mae person yn gallu dewis pwy sydd yn eu cefnogi nhw.




Mae cefnogaeth a thai yn cael eu rhoi gan wahanol gyrff.





Fel arfer fe fydd gan y person **denantiaeth**.

**Tenantiaeth** ydy cytundeb mewn ysgrifen rhwng y person sydd yn berchen ar y tŷ a'r person sydd yn byw ynddo.



## 6. Pa reolau ddylai gael eu dilyn ar gyfer tai?



**Safonau Reach.** Rhestr o bethau ydy'r rhain i helpu i wneud yn siŵr bod hawliau a dewisiadau pobl sydd yn cael cefnogaeth yn cael eu hamddiffyn.



## 7. Sut beth ydy cefnogaeth dda?

Mae'r person yn cael ei roi gyntaf.





**Mae cwestiynau 8 a 9 yn gofyn am sut rydyn ni'n cynllunio a gwneud yn siŵr bod cefnogaeth dda yn cael ei darparu.**



Yr atebion ydy y dylai pobl sydd yn cynllunio ac yn darparu gwasanaethau cefnogi weithio gyda'i gilydd gyda'r bobl sydd yn cael cefnogaeth a'u teuluoedd.



**10. Sut rydyn ni'n gwneud yn siŵr bod gwasanaethau tai a chefnogaeth yn cael eu darparu i bobl gyda llawer o anghenion?**



Gwahanol gyrff yn gweithio gyda'i gilydd i wneud yn siŵr bod pobl yn cael eu cefnogi'n dda.



**11. Sut fyddwn ni'n gwybod bod llesiant pobl yn gwella?**



Edrych ar y gwahaniaeth mae gwasanaethau tai a chefnogaeth yn ei wneud i fywydau pobl.



**12. Sut ydyn ni'n gallu wneud yn siŵr bod gwasanaethau tai a chefnogaeth yn gallu para am amser hir?**



Gwneud yn siŵr ein bod yn dal i weld ein bod yn gwario arian am wasanaethau yn dda.



## Beth sydd yn digwydd nesaf?

Fe fydd y cyngor yn cael ei lansio ar **5 Mawrth 2019**.



Fe fydd y **Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol** yn gweithio gyda'r **Grŵp Cyngori Gwenidogion** ar gyfer **Pobl** gydag **Anableddau Dysgu**.




Fe fydd y Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol yn gweithio gyda **Rhaglen Gwella Bywydau Pobl** gydag **Anableddau Dysgu** Llywodraeth Cymru.



Fe fyddwn yn edrych ar sut mae'r cyngor yma wedi helpu pobl a chyrff mewn 1 blwyddyn.



Fe fyddwn yn gwneud pecyn cymorth. Fe fydd hyn yn rhoi mwy o gyngor ar sut i wneud y gwaith yma'n dda.



Fe fyddwn yn trefnu digwyddiad ym mis Mawrth 2020 i bobl a chyrff iddyn nhw gael dweud pa mor ddefnyddiol mae'r cyngor yma wedi bod.

# Beth arall sydd angen ei wneud?



Dysgu rhagor am beth sydd yn dda ac yn ddrwg am y gwahanol ffyrdd o ddarparu tai a chefnogaeth.



Edrych ar sut y mae **Cysylltu Bywydau** yn gallu bod yn dda i bobl. Mae hyn yn ffordd o ddarparu gwasanaethau tai a chefnogaeth i bobl.



Gwneud rheolau i amddiffyn hawliau a llesiant pobl os oes rhaid iddyn nhw symud i ardal wahanol ar gyfer tai a chefnogaeth.



Trefnu gweithdy i edrych ar y ffyrdd gorau o ddarparu gwasanaethau tai a chefnogaeth a'r gwahaniaethau maen nhw'n eu gwneud.



Darganfod ffyrdd o weld sut mae gwasanaethau tai a chefnogaeth yn helpu pobl.





Gwneud pecyn cymorth a fydd yn helpu i gynllunio faint mae tai a chefnogaeth yn ei gostio.



Edrych ar sut mae **Technoleg Gynorthwyol** yn gallu helpu pobl. Defnyddio offer i helpu pobl i fod yn fwy annibynnol ydy hyn.



**Mae'r ddogfen yma wedi cael ei rhoi at ei gilydd gan:**

Anabledd Dysgu Cymru

Ategi

Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol

Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg

Cartrefi Cymru

Consortiwm Bywydau Cymunedol

Cydweithrediaeth Gwelliant Gwasanaethau Gofal  
Cymdeithasol a Llesiant Gogledd Cymru

Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

Cymdeithas Tai First Choice

Cymorth Cymru

Cyngor Gofal Cymdeithasol Annibynnol Garland

Cyngor Sir Conwy

Cyngor Sir y Fflint

Fforwm Cymru Gyfan

Llywodraeth Cymru

Pobl yn Gyntaf Cymru Gyfan